Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 27 November 2023 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present** Helen Nelson (Chair), Rebecca Fogarty, Martin O'Neill, Carrie Townsend Jones, and Emelie Cox.

**Co-opted member present:** Eddie Hall

**Officers Present:** Kerry-Leigh Grabham – Clerk, Paul Beynon - RFO, Lydia Graham – Environmental Officer and Ian Hughes – Committee Support Officer (CSO)

**Others Present:** Natasha Dodds from The Environment Centre

Prior to the meeting commencing The Chair, Cllr. Nelson welcomed two new committee members, Cllrs O'Neil and Cox who both gave a brief outline of their commitment to the environment and how they were looking forward to contributing to the Committee.

**EN2311-01** **Apologies:** Cllrs. Sara Keeton and Michael Parkin

**EN2311-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2311-03** **Big Climate Leap** – Presentation from Natasha Dodds (project lead from The Environment Centre)

Natasha Dodds provided a 'Powepoint' Presentation, the content of which had been previously circulated to committee members. Following the presentation Natasha answered questions from members before departing at 7.11pm

**AGREED** that the implementation of recommendations and practices contained within Natasha's presentation will have a significant bearing on the future decision making and collaboration with others by MCC.

Mumbles Community Council

**EN2311-04** **To approve the minutes of the meeting held on the 23 October 2023 as a true record.**

Prior to the minutes of the meeting held on 23rd October 2023 being agreed, the Chair, Cllr. Nelson raised concerns over the minutes prepared by The CSO in relation to the meeting held on 2nd October 2023. In particular whether a discussion concerning the proposed installation of a 5G Mast in Mayals had been sufficiently recorded including details of those being present together with reference to declarations of interest. The discussion concerning The 5G Mast had taken place prior to the committee meeting due to it not being quorate at that time.

**Action:** CSO to revisit the committee meeting minutes of 02.10.23 with a view to greater reflecting concerns raised in relation to the 5G Mast discussion.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 23 October 2023 as a true record which was proposed by Cllr. Nelson and seconded Cllr. Townsend Jones

**EN2311-05** **Actions from previous meeting update**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report.

**EN2311-06** **Budget Monitoring Report to 30/09/2023**

Reports attached.

Paul Beynon, The RFO outlined key points from the Budget Monitoring Report. The RFO addressed questions from councillors including grants available to primary schools and grass verges within MCC.

**RESOLVED** the Budget Monitoring Report was accepted.

**Action:** Lydia to make one further attempt to contact primary schools in relation to them utilising environmental grant money of £500 per school

**Action:** Martin Russell to update the Committee on grass verges at the December Meeting.

Mumbles Community Council

**Action:** CSO to liaise with Martin Russell over his expenditure, ensuring that he claims all the expenses incurred.

**Recommended** that the Environment Committee is authorised to spend up to £1,000 organising the Mumbles Gardener's Question Time event to be funded from the Mumbles Gardener's Question Time budget (ENV 27).

**EN2311-07** **Budget 2024/25 to be presented by Paul Beynon, RFO**

Paul Beynon, The RFO, outlined current and future budgeting considerations including the need for budgeting proposal forms to be submitted in a timely manner. In answer to questions from participants The RFO confirmed that the expenditure on the spreadsheet only related up to 30th September 2023.

The Chair, Cllr Nelson set out ideas for budget proposals on behalf of herself and Cllr Parkin. Some of the ideas including bulb planting would in all probability be included within plans being prepared within the budget for The Big Climate Leap. Other ideas included acquiring an electric van for use by Martin Russell and training sessions being provided by Green Heros. The use of an electric van generated a discussion on how the vehicle would be charged and stored overnight.

During this discussion Cllr Emelie Cox left the meeting at 7.44pm.

**Action:** Lydia to liaise with Martin over the price of bulbs and update RFO who will decide whether a budget proposal form is necessary for any additional costings.

**Action:** Cllr Nelson to consider budget items in consultation with RFO and circulate a list to all committee members prior to December Meeting.

**Action:** Cllr Townsend Jones to research possibilities of charging and storing an electric vehicle overnight at Ostreme or another site.

**AGREED** that all Budget Proposal Forms be provided to RFO before 1.12.23 in order that any proposal be agreed at December's Committee and Full Council Meetings.

Mumbles Community Council

**RESOLVED** the Draft Budget Spreadsheet was accepted.

**EN2311-08** **Update Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**

Summary of previous months activity and next steps for December

Lydia Graham, The Environmental Officer had previously arranged for her reports to be circulated to committee members. Lydia updated the committee on key points and developments.

**AGREED** that Lydia's reports be accepted.

**EN2311-09** **Rules about gardening on verges**

Due to insufficient time this matter was not discussed and postponed until a future time.

**Meeting concluded at 8.00pm**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2023 am 6.30pm Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol** Helen Nelson (Cadeirydd), Rebecca Fogarty, Martin O'Neill, Carrie Townsend Jones ac Emelie Cox.

**Yr aelod cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry-Leigh Grabham – Clerc, Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Lydia Graham – Swyddog yr Amgylchedd, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**Eraill yn bresennol:** Natasha Dodds o Ganolfan yr Amgylchedd

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Nelson, ddau aelod newydd o'r pwyllgor, y Cynghorwyr O'Neil a Cox, a rhoddasant amlinelliad byr o'u hymrwymiad i'r amgylchedd a sut yr oeddent yn edrych ymlaen at gyfrannu at y Pwyllgor.

**EN2311-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Sara Keeton a Michael Parkin

**EN2311-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2311-03** **Naid Fawr yn yr Hinsawdd** – Cyflwyniad gan Natasha Dodds (arweinydd prosiectau o Ganolfan yr Amgylchedd)

Rhoddodd Natasha Dodds gyflwyniad PowerPoint i'r pwyllgor, yr oedd ei gynnwys wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i'r aelodau. Yn dilyn y cyflwyniad, atebodd Natasha gwestiynau gan yr aelodau cyn gadael am 7.11pm.

**CYTUNWYD** y bydd gweithredu'r argymhellion a'r arferion a gynhwysir yng nghyflwyniad Natasha yn cael effaith sylweddol ar y penderfyniadau a wneir yn y dyfodol a chydweithio ag eraill gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Mumbles Community Council

**EN2311-04** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 fel cofnod cywir.**

Cyn i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 gael eu cytuno, mynegodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Nelson, bryderon ynghylch y cofnodion a baratowyd gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau mewn perthynas â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2023. Yn benodol, a oedd trafodaeth ynghylch y bwriad i osod mast 5G ym Mayals wedi'i chofnodi'n ddigonol, gan gynnwys manylion y rhai a oedd yn bresennol ynghyd â chyfeiriad at ddatganiadau o fuddiant. Roedd y drafodaeth ynghylch y mast 5G wedi'i chynnal cyn cyfarfod y pwyllgor, oherwydd nad oedd cworwm ar y pryd.

**Cam Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i ailedrych ar gofnodion cyfarfod y pwyllgor ar 02.10.23 gyda golwg ar adlewyrchu'n fwy manwl y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r drafodaeth am y mast 5G.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 fel cofnod cywir, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Nelson ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Townsend Jones.

**EN2311-05** **Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddaru a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu'.

**EN2311-06** **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 30/09/2023**

Adroddiadau wedi'u hatodi.

Amlinellodd Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, bwyntiau allweddol o Adroddiad Monitro'r Gyllideb. Aeth y Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r afael â chwestiynau gan gynghorwyr, gan gynnwys am grantiau sydd ar gael i ysgolion cynradd ac ymylon glaswellt o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Monitro'r Gyllideb.**

Mumbles Community Council

**Cam Gweithredu:** Lydia i wneud un ymgais arall i gysylltu ag ysgolion cynradd o ran iddyn nhw ddefnyddio arian grant amgylcheddol o £500 yr ysgol.

**Cam Gweithredu:** Martin Russell i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ymylon glaswellt yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**Cam Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i gysylltu â Martin Russell ynghylch ei wariant, gan sicrhau ei fod yn hawlio'r holl gostau yr aethpwyd iddynt.

**Argymhellwyd** awdurdodi Pwyllgor yr Amgylchedd i wario hyd at £1,000 yn trefnu digwyddiad Holi Garddwyr y Mwmbwls, i'w ariannu o gyllideb Holi Garddwyr y Mwmbwls (ENV 27).

**EN2311-07**

**Cyllideb 2024/25 i'w chyflwyno gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Amlinellodd Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, ystyriaethau cyllidebu presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i ffurflenni cynnig cyllideb gael eu cyflwyno mewn modd amserol. Mewn ymateb i gwestiynau gan gyfranogwyr, cadarnhaodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol fod y gwariant ar y daenlen ond yn berthnasol hyd at 30 Medi 2023.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Nelson, syniadau ar gyfer cynigion cyllideb ar ei rhan hi a'r Cynghorydd Parkin. Mae'n debygol y byddai rhai o'r syniadau, gan gynnwys plannu bylbiau, yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau sy'n cael eu paratoi o fewn y gyllideb ar gyfer y BIG Climate Leap. Roedd syniadau eraill yn cynnwys cael fan drydan i'w defnyddio gan Martin Russell a sesiynau hyfforddi'n cael eu darparu gan Green Heros. Arweiniodd y defnydd o fan drydan at drafodaeth ar sut y byddai'r cerbyd yn cael ei wefru a'i storio dros nos.

Yn ystod y drafodaeth hon, gadawodd y Cynghorydd Emelie Cox y cyfarfod am 7.44pm.

**Cam Gweithredu:** Lydia i gysylltu â Martin ynghylch pris bylbiau a diweddaru'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, a fydd yn penderfynu a oes angen ffurflen cynnig cyllideb ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

Mumbles Community Council

**Cam Gweithredu:** Y Cynghorydd Nelson i ystyried eitemau cyllideb mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol a dosbarthu rhestr i holl aelodau'r pwyllgor cyn cyfarfod mis Rhagfyr.

**Cam Gweithredu:** Y Cynghorydd Townsend Jones i ymchwilio i bosibiliadau gwefru a storio cerbyd trydan dros nos yng Nghanolfan Ostreme neu ar safle arall.

**EN2311-08** **CYTUNWYD** bod yr holl ffurflenni cynnig cyllideb yn cael eu darparu i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn 1.12.23 er mwyn cytuno ar unrhyw gynnig yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr.

**PENDERFYNWYD** y derbyniwyd taenlen y Gyllideb Ddrafft.

**Diweddariad gan Swyddog yr Amgylchedd – Adroddiad Misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Rhagfyr

**EN2311-09** Roedd Lydia Graham, Swyddog yr Amgylchedd, eisoes wedi trefnu bod ei hadroddiadau'n cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Rhoddodd Lydia yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am bwyntiau allweddol a datblygiadau.

**CYTUNWYD** bod adroddiadau Lydia yn cael eu derbyn.

**Rheolau am arddio ar leiniau ymyl y ffordd**
Oherwydd diffyg amser, ni chafodd y mater hwn ei drafod a chafodd ei ohirio tan rywbryd yn y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm.**

Mumbles
Community Council